This document is available in English / Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg

Sblot: Ffordd Pengam - Tynnu Culhau â Blaenoriaeth

Disgrifiad o'r Cynllun a Gynigir

Mae'r Cyngor yn hysbysu preswylwyr ynghylch cynlluniau i wneud newidiadau i'r briffordd ar Pengam Road.

Mae nodwedd culhau â blaenoriaeth i'w chael ar Pengam Road ger ei chyffordd â Ffordd Rover; mae hyn yn lleihau llif traffig i'r ddau gyfeiriad yn un rhes. Cynigir tynnu'r nodwedd hon a'i disodli â chroesfan sebra ddyrchafedig sy'n ymwthio allan i'r ffordd. Bydd lledu'r llwybr cerdded yn gwella'r groesfan i gerddwyr drwy eu galluogi i weld, a chael eu gweld, gan y cerbydau ar y ffordd. Gall rhwystrau culhau'r ffordd amharu ar lif traffig, cythruddo gyrwyr, ac achosi oedi i deithiau bws. Bydd gwaredu'r culhau â blaenoriaeth yn gwella dibynadwyedd amseroedd bysus drwy eu helpu i symud.

Bydd y mesurau arafu traffig yma yn gwella cyfleusterau croesi i gerddwyr yn yr ardal ond hefyd yn helpu i leihau cyflymder cerbydau ar hyd Pengam Road sy'n creu priffordd fwy diogel i bawb sy'n defnyddio'r ffordd hon.

Byddem yn gwerthfawrogi unrhyw sylwadau sydd gennych ynghylch y cynigion. Rydym yn deall y gallai fod awgrymiadau eraill gennych i wella diogelwch ar hyd Pengam Road. O ganlyniad i gyfyngiadau ariannol efallai na fydd modd i ni newid y cynlluniau hyn yn sylweddol ar hyn o bryd, ond byddwn yn cadw cofnod o unrhyw awgrymiadau a ddaw i law er mwyn eu cynnwys mewn cynlluniau yn y dyfodol.

Os hoffech wneud unrhyw sylwadau ynghylch y cynnig hwn, rhowch wybod i ni erbyn **21/05/2021** drwy e-bostio ProsiectauTrafnidiaeth@caerdydd.gov.uk

Gwybodaeth ychwnaegol ynghylch mesurau rheoli traffig

Nodweddion Arafu Traffig. Mae'r term hwn yn cyfeirio at fesurau rheoli traffig ffisegol penodol sy'n gorfodi gyrrwyr i leihau cyflymder cerbydau. Mae'r rhain yn cynnwys twmpathau ffordd, clustogau arafu, byrddau arafu, rhwystrau culhau'r ffordd, rhwystrau igam-ogamu, pyrth arafu, cylchfannau a nodweddion tebyg eraill.

Croesfan Sebra. Mae'r math hon o groesfan yn addas ar gyfer safleoedd sydd â lefelau canolig o alw gan gerddwyr a llif traffig lle nad oes cyfiawnhad dros ***groesfan pâl***. Gall

groesi. Gellir eu cyfuno'n hawdd â ***rhwystrau ymwthiol*** sy'n gwella gweledededd i gerbydau, yn lleihau'r pellteroedd croesi ac yn egluro bod cerddwyr yn bwriadu croesi'r ffordd.

Croesfan Sebra â Bwrdd. ***Croesfan sebra*** sy'n cynnwys bwrdd arafu, neu sydd ar ***gyffordd fwrdd,*** yn rhan o fesurau ehangach i arafu traffig neu ar ei ben ei hun.
Porth Cul Blaenoriaethol. Mesur arafu traffig gyda ***rhwystrau ymwthiol*** yn culhau'r ffordd fel mai ond un cerbyd ar y tro all deithio drwy'r porth. Ym mhob cynllun newydd i gulhau ffyrdd, rhoddir blaenoriaeth i geir sy'n teithio o un cyfeiriad. Gallant hefyd

gynorthwyo cerddwyr i groesi’r ffordd oherwydd bod y ffordd yn gulach a bod gwell gweledd. Maen nhw’n fwyaf effeithiol pan fo nifer tebyg o gerbydau yn defnyddio'r ffordd i'r ddau gyfeiriad, gyda 10 i 20 o gerbydau y funud yn ystod yr awr frig.

Mae'r Cyngor yn ymgynghori ar y cynnig i weithredu cynllun rheoli traffig yn seiliedig ar y cynllun.

Mae rhagor o fanylion am yr ymgynghori hwn ar gael yn www.caerdydd.gov.uk/transportprojects ar y ddolen 'gweld ymgynghoriadau'. Fel arall, e-bostiwch Projectautrafnidiaeth@caerdydd.gov.uk i ofyn am gopi papur. Os hoffech wneud unrhyw sylwadau am y cynnig rhowch wybod i ni erbyn **21/05/2021.**



The Council is consulting on the proposal to implement a traffic management scheme based on the plan shown.

Further details about this consultation are available at www.cardiff.gov.uk/TransportProjects using the 'view consultations' link. Alternatively, please e-mail TransportProjects@cardiff.gov.uk to request a paper copy. If you would like to make any comments about this proposal please let us know by **21/05/2021.**